**EITEM AT YR AGENDA: 9**

# PANEL GWEITHREDOL AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19th Gorffennaf 2010**

## Gorsaf Dân Gymunedol Y Rhyl

**Adroddiad gan Dawn Docx, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth ar y datblygiadau yng Ngorsaf Dân Gymunedol Y Rhyl hyd yma. Mae'n dangos sut y mae gweithgareddau yn yr orsaf yn diwallu anghenion y gymuned; sut y mae'n cynorthwyo i gwrdd â nodau ac amcanion Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) a sut y mae'n bodloni'r achosion busnes gwreiddiol.

## Cefndir

2 Cysyniad gwreiddiol yr Orsaf Dân Gymunedol oedd gweddnewid gorsaf dân weithredol draddodiadol yn orsaf flaenweithgar a fyddai'n ymateb i ofynion y gymuned. Y prif ffocws yw'r gymuned, tanau ac amddiffyn pobl, yn ogystal ag ymateb i ddigwyddiadau.

3 Cyn codi'r adeilad, yn Chwefror 2006, lansiodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) gyfres o weithgareddau ymgynghori yn y dref, er mwyn gweld beth oedd barn y bobl leol am y prosiect. Fe dderbyniwyd barn y bobl leol a alluogodd y pensaer i sicrhau fod yr Orsaf Dân Gymunedol yn cynnig cyfleusterau yr oedd gofyn amdanynt yn Y Rhyl, gan wella'r dref a chynorthwyo GTAGC i leihau'r perygl o dân.

4 Roedd y mwyafrif aruthrol o bobl a fu'n rhan o'r gweithgareddau ymgynghorol yn bositif am y cynlluniau i weddnewid Gorsaf Dân Y Rhyl a chreu man ar gyfer y gymuned. Roedd teimlad cyffredinol

fod gofyn am fwy o gyfleusterau yn Y Rhyl i bobl o bob oed ac y byddai sicrhau fod gan y gymuned fynediad i'r orsaf dân yn rhywbeth positif iawn. Mynegodd nifer o sefydliadau cymunedol, gan gynnwys elusennau, sefydliadau gwirfoddol a chynllun gwarchod y gymdogaeth, ddiddordeb mewn defnyddio'r man ar gyfer cyfarfodydd.

5 Cwblhawyd y prosiect i ailfodelu gorsaf Y Rhyl yn Awst 2008. Fe'i cwblhawyd ar amser ac ar gost lai na'r gyllideb a gafodd ei neilltuo, sef cost o lai na £2.5 miliwn a gafodd ei ariannu'n rhannol gan grant o dros £650,000 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cwblhawyd y prosiect i ail-fodelu gorsaf Rhyl a chreu gorsaf dân gymunedol yn Awst 2008.

6 Unwaith y cwblhawyd, sefydlwyd tîm rheoli i gynorthwyo Rheolwr yr Orsaf reoli'r cyfleuster. Roedd y tîm yn cynnwys Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Uwch Reolwr Diogelwch Tân, Rheolwr Diogelwch Tân Cymunedol, Rheolwr Cyllid a Dirprwy Reolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol. Cynhaliwyd cyfarfodydd pob chwarter oni bai fod mater brys yn gofyn am gyfarfod ychwanegol.

**Gwybodaeth**

7 Ers agor yr Orsaf Dân Gymunedol 22 fis yn ôl, mae'r orsaf wedi dod yn rhan o'r gymuned yn Y Rhyl, yn darparu cyfleusterau angenrheidiol a ffocws i ddigwyddiadau diogelu'r gymuned. Oriau agor cyfredol yr orsaf yw rhwng 08.00 o'r gloch a 21.00 o'r gloch a gall fod ar gael saith niwrnod yr wythnos.

8 Tra bydd ymwelwyr yn defnyddio'r orsaf at eu dibenion hwy eu hunain a mwynhad, cânt eu hatgoffa am bwysigrwydd diogelwch tân. Mae'r negeseuon hyn yn cael eu dosbarthu mewn nifer o ffyrdd gwahanol ar draws yr Orsaf, megis posteri a thaflenni, negeseuon ar y teledu a dyfeisiadau negeseuon ffôn testun 'Bluetooth'. Mae Personél yr Orsaf ynghyd â'r adran diogelwch cymunedol yn weithgar iawn wrth sicrhau fod ymwelwyr yn derbyn gwybodaeth am ddiogelwch tân, unai'n ffurfiol drwy gyflwyniadau neu wrth gael sgwrs anffurfiol gydag ymwelwyr yn y dderbynfa yn ystod amseroedd egwyl. Mae hyn wedi arwain at dros 400 o atgyfeiriadau am archwiliadau diogelwch tân yn y cartref.

9 Dros y 18 mis diwethaf mae'r orsaf wedi sefydlu trefniadau ffurfiol gyda "Dim Smygu Cymru" a'r Uned Adfer Cardiag at gael defnyddio'r cyfleusterau ac mae cytundeb lefel gwasanaeth tair blynedd wedi ei chadarnhau gydag adran Teleofal Cyngor Sir Ddinbych ac mae eu cyfleuster arddangos yn Ninbych wedi ei leoli yn yr Orsaf Dân Gymunedol. Mae trafodaethau wedi cychwyn er mwyn datblygu'r bartneriaeth gyda Teleofal, a thrwy hyn bydd staff GTAGC yn parhau i weithio gyda Teleofal i ddarparu Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref i'w cleientiaid a darparu cefnogaeth ychwanegol ac offer i Teleofal.

10 Enghraifft arall o gydweithio llwyddiannus yw ein gwaith gyda Tai Hafan (Hafan Cymru) sef un o brif gymdeithasau tai yr ardal. Maent yn defnyddio'r orsaf yn aml ar gyfer cyfarfodydd cymdeithas a chyrsiau i'r cleientiaid, ac yn ystod hyn bydd eu tenantiaid yn derbyn cyflwyniadau a gwybodaeth ar ddiogelwch tân.

11 Mae'r cyfleuster hefyd yn cael ei ddefnyddio gan Goleg Harlech. Ers mis Medi 2008 mae 262 o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyfer eu cyrsiau gweithgareddau i ddysgwyr. Mae'r cyrsiau yma wedi denu 45% o'r holl fyfyrwyr sydd yn mynychu o Sir Ddinbych ac sydd yn dod o ardaloedd difreintiedig. Mae hyn wedi galluogi GTAGC i ddylanwadu ar y myfyrwyr yma, sydd mewn perygl mawr o ddioddef tân, i fod yn fwy diogel yn eu cartrefi.

## Canlyniad

12 Mae Gorsaf Dân Gymunedol Y Rhyl wedi datblygu partneriaethau llwyddiannus yn y gymuned ac wedi llwyddo yn well na'r disgwyl yn nhargedau busnes y flwyddyn gyntaf:

- Yn y flwyddyn gyntaf targed y raddfa feddiannaeth oedd 40%. Roedd y raddfa wirioneddol yn fwy na'r disgwyl sef cyfartaledd 58% ac ar hyn o bryd mae'n 65%.
- Y targed ar gyfer cynhyrchu incwm oedd £41,500. Yr incwm gwirioneddol oedd £52,720.
- Rhwng Hydref 2008 - Mawrth 2010 fe ddefnyddiodd 16,500 o ymwelwyr y cyfleusterau ac o ganlyniad i hyn fe gwblhawyd 400 o atgyfeiriadau ar gyfer Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref.

13 Roedd amcanion hir dymor Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Integredig Rheoli Risg cyntaf a gyhoeddwyd yn 2003, yn gofyn i'r cyhoedd gael mynediad rhwyddach i'r Gwasanaeth, codi proffil y gwaith a wneir yn y gymuned, datblygu partneriaethau gydag asiantaethau eraill ac ehangu'r gwaith a wneir â phobl ifanc. Mae'r amcanion hyn wedi eu cefnogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ailfodelu Gorsaf Dân y Rhyl i'r Orsaf Dân Gymunedol gyntaf yng Nghymru wedi bod yn ymgorfforiad pendant o'r amcanion hir dymor. Y bwriad nawr yw gweithio ar y llwyddiant cychwynnol hwn a pharhau i ddatblygu i gwrdd ag anghenion pobl y Rhyl a chymunedau ehangach Gogledd Cymru.